ATODLEN 12

Dogfen symud iechyd planhigion

# RHAN A

**1.** Rhaid i'r ddogfen symud iechyd planhigion sy'n ofynnol o dan erthygl 17(6) fod ar y ffurf a nodir yn Rhan B.

**2.** Rhaid i'r wybodaeth a gynhwysir mewn dogfen symud iechyd planhigion fod wedi ei nodi yn o leiaf un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a rhaid iddi gael ei llenwi—

(a) mewn teipysgrif neu drwy ysgrifennu mewn priflythrennau; neu

(b) gyda chytundeb Gweinidogion Cymru a chorff swyddogol y gyrchfan neu fan cyrraedd, drwy ddulliau electronig.

**3.** Yn Rhan B, mae i "approved place of inspection" yr un ystyr ag a roddir yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 2004/103/EC ar wiriadau adnabod planhigion ac iechyd planhigion, cynnyrch planhigion neu wrthrychau eraill, a restrir yn Rhan B o Atodiad V i Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC, y caniateir eu cyflawni mewn man ac eithrio man cyrraedd y Gymuned neu mewn man gerllaw, ac yn pennu'r amodau sy'n ymwneud â'r gwiriadau hynny(**1**).

(**1**) OJ Rhif L 313, 12.10.2004, t. 16.